IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# LlC24-09

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3), 13(2)(c), (3)(c) a (4)(c), 19(1), 203(9) a (10) a 204(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre(**2**).

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

---

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993/2838 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826, O.S. 2002/442, O.S. 2009/2059, O.S. 2012/1262, O.S. 2017/912 ac O.S. 2018/887.

ystyr "AaGIC" ("*HEIW*") yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru a sefydlwyd gan Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017(**1**);

ystyr "Achrediad GGGC" ("*LVSW Accreditation*") yw cwblhau'n llwyddiannus fodiwlau ôl-raddedig perthnasol mewn golwg gwan ac unrhyw ofynion hyfforddiant, ymarfer a chlinigol perthnasol eraill a amlinellir yn y llawlyfr clinigol;

ystyr "adnoddau a gymeradwyir" ("*approved resources*") yw unrhyw adnoddau gan y corff GIG cynhaliol y mae'r cyd-bwyllgor yn eu cymeradwyo yn ysgrifenedig at ddiben arfer y cyd-swyddogaethau;

ystyr "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yw'r adroddiad blynyddol a lunnir ac a gyhoeddir gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 8;

ystyr "adroddiad cryno blynyddol" ("*annual summary report*") yw'r adroddiad cryno blynyddol a lunnir ac a gyhoeddir gan y cyd-bwyllgor yn unol â chyfarwyddyd 13;

ystyr "aelod cyswllt" ("*associate member*") yw aelod o'r cyd-bwyllgor nad oes ganddo ddim hawliau pleidleisio;

ystyr "amodau cyflenwi" ("*conditions of supply*") yw'r amodau a nodir ym mharagraff 5 o'r Atodlen;

ystyr "archeb am ddyfais" ("*device order*") yw ffurflen archeb a anfonir gan ymarferydd achrededig i'r corff GIG cynhaliol yn gofyn i glaf gael ei gyflenwi ag un neu ragor o ddyfeisiau ac y mae rhaid iddi fod yn y ffurflen archeb (cerdyn cofnod) a nodir yn y llawlyfr clinigol, neu ar unrhyw ffurf arall sy'n ofynnol gan y cyd-bwyllgor;

ystyr "Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer GOCC" ("*National WGOS Clinical Lead*") yw person sy'n cael ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac sydd â chyfrifoldeb am ddarparu arweinyddiaeth glinigol a chymorth clinigol mewn perthynas â gwasanaethau optometrig yng Nghymru;

ystyr "asesiad o anghenion iechyd llygaid" ("*eye health needs assessment*") yw asesiad a lunnir ac a gyhoeddir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 4, ac mae'n cynnwys unrhyw asesiad diwygiedig;

ystyr "y Bartneriaeth Gydwasanaethau" ("*the SSP*") yw Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre a sefydlwyd gan Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau

(**1**) O.S. 2017/913 (Cy. 224).

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**1**);

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill mewn un flwyddyn ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y darperir GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 (fel y bo'n briodol) iddo yn unol â'r llawlyfr clinigol;

ystyr "contract yn ôl y gofyn" ("*call-off contract*") yw contract rhwng y corff GIG cynhaliol a chyflenwr dyfeisiau y mae'r corff GIG cynhaliol yn gallu galw ar y cyflenwr i ddarparu dyfeisiau odano i'r Byrddau Iechyd Lleol, neu i unrhyw gleifion a enwebir gan y Byrddau Iechyd Lleol;

ystyr "contractwr trefnu" ("*arranging contractor*") yw—

(a) optegydd corfforedig,

(b) optometrydd,

(c) ymarferydd meddygol offthalmig,

(d) optegydd cyflenwi,

sydd wedi ymrwymo i drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5;

mae i "corff cyfatebol" ("*equivalent body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

ystyr "corff GIG cynhaliol" ("*host NHS body*") yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(**2**);

ystyr "costau rhedeg" ("*running costs*") yw unrhyw gostau y gall y corff GIG cynhaliol fynd iddynt yn rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau yn unol â chyfarwyddyd 15;

ystyr "y cyd-bwyllgor" ("*the joint committee*") yw'r cyd-bwyllgor a sefydlir yn unol â chyfarwyddyd 9;

ystyr "cyfarwyddwr cyllid y Bartneriaeth Gydwasanaethau" ("*director of finance of the SSP*") yw person sydd wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gyfarwyddwr y Bartneriaeth Gydwasanaethau ac sydd â chyfrifoldeb am gyllid y Bartneriaeth Gydwasanaethau;

---

(**1**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235; O.S. 2015/137; O.S. 2016/481; O.S. 2020/585 (Cy. 133) ac O.S. 2021/237 (Cy. 60).

(**2**) Mae swyddogaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o ran darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi eu dirprwyo i'r Bartneriaeth Gydwasanaethau o dan O.S. 2012/1261 (Cy. 156), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235; O.S. 2015/137; O.S. 2016/481; O.S. 2020/585 (Cy. 133) ac O.S. 2021/237 (Cy. 60).

ystyr “cyfarwyddwr gwasanaethau gofal sylfaenol y Bartneriaeth Gydwasanaethau” (“*director of primary care services of the SSP*”) yw person sydd wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gyfarwyddwr y Bartneriaeth Gydwasanaethau ac sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol;

ystyr “cyfarwyddwr meddygol cyswllt” (“*associate medical director*”) yw person sydd wedi ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd Lleol yn gyfarwyddwr meddygol cyswllt ac sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol;

ystyr “cyflenwr perthnasol” (“*relevant supplier*”), mewn perthynas â dyfais a gyflenwir i ymarferydd achrededig perthnasol i’w gyflenwi i glaf, yw’r cyflenwr a gaffaelwyd i ddanfon y ddyfais at yr ymarferydd achrededig;

ystyr “Cynghorydd Optometrig Lleol” (“*Local Optometric Advisor*”) yw person sy’n cael ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd Lleol ac sydd â chyfrifoldeb am gefnogi’r Bwrdd Iechyd Lleol i gynnal safonau priodol o ran gofal i gleifion ac i ddatblygu gwasanaethau optometrig lleol;

ystyr “cynllun cyllideb blynyddol” (“*annual budget plan*”) yw’r cynllun cyllideb blynyddol a gymeradwyir gan y cyd-bwyllgor yn unol â chyfarwyddyd 12;

ystyr “cynllun cyllideb blynyddol cyntaf” (“*first annual budget plan*”) yw’r cynllun cyllideb blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2024;

mae i “cynllun cyllideb yn ystod y flwyddyn” (“*in-year budget plan*”) yr ystyr a roddir ym mharagraff 8(9) o’r Atodlen;

ystyr “chwarter” (“*quarter*”) yw cyfnod olynol o dri mis sy’n dechrau ar 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref a 1 Ionawr;

ystyr “data’r gweithlu” (“*workforce data*”) yw data sy’n ymwneud â’r rhai sydd wedi eu cyflogi gan y contractwr trefnu;

mae i “deddfwriaeth diogelu data” yr ystyr a roddir i “data protection legislation” yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(**1**) (termau sy’n ymwneud â phrosesu data personol);

ystyr “digwyddiadau cychwynnol” (“*originating events*”) yw’r digwyddiadau a arweiniodd at yr atal dros dro, y gwrthod cynnwys, y cynnwys yn amodol, y dileu neu’r dileu yn ddigwyddiadol a ddigwyddodd;

ystyr “dirprwy gyfarwyddwr gwasanaethau gofal sylfaenol y Bartneriaeth Gydwasanaethau”

(**1**) 2018 p. 12; diwygiwyd y diffiniad yn adran 3 gan O.S. 2019/419.

(“*deputy director of primary care services of the SSP*”) yw person sydd wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ddirprwy gyfarwyddwr y Bartneriaeth Gydwasanaethau ac sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol;

ystyr “dyddiad cychwyn” (“*commencement date*”) yw’r dyddiad y daw’r Cyfarwyddydau hyn i rym o dan gyfarwyddyd 1(2);

ystyr “dyfais” (“*device*”) yw dyfais a ddarperir i berson sydd ag amhariad ar ei olwg er mwyn lliniaru neu oresgyn anawsterau y mae’n eu profi o ganlyniad i’r amhariad hwnnw;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “GOCC 1” (“*WGOS 1*”) yw gwasanaethau offthalmig cyffredinol a ddarperir yn unol â Rheoliadau 2023;

ystyr “GOCC 2” (“*WGOS 2*”) yw gwasanaethau archwilio llygaid a ddarperir yn unol â Rheoliadau 2023;

mae i “GOCC 3” (“*WGOS 3*”) yr ystyr a roddir iddo yng nghyfarwyddyd 3(7)(a);

mae i “GOCC 4” (“*WGOS 4*”) yr ystyr a roddir iddo yng nghyfarwyddyd 3(7)(b);

mae i “GOCC 5” (“*WGOS 5*”) yr ystyr a roddir iddo yng nghyfarwyddyd 3(7)(c);

ystyr “GOCC 1–5” (“*WGOS 1–5*”) yw, gyda’i gilydd, GOCC 1, GOCC 2, GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5;

ystyr “y gofrestr” (“*the register*”) yw—

(a) mewn perthynas ag ymarferydd meddygol offthalmig, cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan Ddeddf Meddygaeth 1983(**1**), neu

(b) mewn perthynas â chontractwr trefnu neu ymarferydd achrededig nad yw’n ymarferydd meddygol offthalmig, cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol o dan Ddeddf Optegwyr 1989(**2**);

ystyr “gofynion achredu” (“*accreditation requirements*”), mewn perthynas â GOCC 3, yw’r gofynion a nodir yng nghyfarwyddyd 3(5), ac, mewn perthynas â GOCC 4 neu GOCC 5, yw’r gofynion a nodir yng nghyfarwyddyd 3(6);

mae “gwaredu” (“*dispose of*”), mewn perthynas ag unrhyw beth, yn cynnwys trosglwyddo perchnogaeth, cael gwared ar feddiant, gosod, llogi, neu greu unrhyw warant yn y peth neu dros y peth o dan sylw;

---

(**1**) 1983 p. 54.
(**2**) 1989 p. 44.

mae i “gwasanaethau archwilio llygaid” (“*eye examination services*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2023;

mae i “gwasanaethau offthalmig cyffredinol” (“*general ophthalmic services*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4 o Reoliadau 2023;

ystyr “gwasanaethau symudol” (“*mobile services*”) yw GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 a ddarperir mewn man nad yw’n fangre gofrestredig;

ystyr “gweithdrefnau gweithredu safonol” (“*standard operating procedures*”) yw’r gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer darparu GOCC 1–5 a lunnir ac a gyhoeddir yn unol â chyfarwyddyd 11;

ystyr “llawlyfr clinigol” (“*clinical manual*”) yw’r llawlyfr ar gyfer GOCC 1–5 a gymeradwyir gan y cyd-bwyllgor ac a gyhoeddir yn unol â’r Cyfarwyddydau hyn, ac mae’n cynnwys unrhyw lawlyfr clinigol diwygiedig;

ystyr “mangre gofrestredig” (“*registered premises*”) yw cyfeiriad mewn perthynas â chontractwr trefnu a ddarperir yn unol â pharagraff 1(1)(d) o’r Atodlen;

mae i “optegydd corfforedig” (“*corporate optician*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

mae i “optegydd cyflenwi” (“*dispensing optician*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

mae i “optometrydd” (“*optometrist*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

ystyr “orthoptydd cofrestredig” (“*registered orthoptist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru’n orthoptydd yn y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**1**);

ystyr “prif swyddog” (“*chief officer*”) yw swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a benodwyd fel y prif swyddog yn unol â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*healthcare professional*”) yw person sy’n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**3**);

ystyr “rheolau sefydlog” (“*standing orders*”) yw rheolau sefydlog y cyd-bwyllgor a wneir yn unol â chyfarwyddyd 14;

---

(**1**) O.S. 2002/254.

(**2**) O.S. 2009/779 (Cy. 67), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1641; O.S. 2013/235; O.S. 2014/1815; O.S. 2015/137; O.S. 2019/349 (Cy. 83); O.S. 2020/585 (Cy. 133); O.S. 2022/634; O.S. 2023/98; O.S. 2023/368.

(**3**) 2002 p. 17.

ystyr "Rheoliadau 2023" ("*the 2023 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023(**1**);

ystyr "rhestr gofal sylfaenol" ("*primary care list*") yw rhestr y cyfeirir ati yn adran 115(1)(a) i (d) o'r Ddeddf;

ystyr "rhestr gyfatebol" ("*equivalent list*") yw rhestr a gedwir gan gorff cyfatebol sy'n cyfateb i restr gofal sylfaenol;

ystyr "y rhestr weinyddol" ("*the administrative list*") yw'r rhestr weinyddol a lunnir ac a gyhoeddir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024(**2**);

ystyr "rhif cofrestru proffesiynol" ("*professional registration number*") yw'r rhif gyferbyn ag enw'r contractwr trefnu neu enw'r ymarferydd achrededig yn y gofrestr;

mae i "Safonau Gwirio Cyn Cyflogaeth" ("*Pre-employment Checks Standards*") yr ystyr a roddir yng nghyfarwyddyd 3(8);

ystyr "swyddog cyllid" ("*finance officer*") yw swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a benodwyd fel y swyddog cyllid yn unol â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009;

ystyr "swyddog gwasanaethau gofal sylfaenol" ("*primary care services officer*") yw swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a benodwyd yn unol â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 ac sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol;

ystyr "swyddog meddygol" ("*medical officer*") yw swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a benodwyd fel y swyddog meddygol yn unol â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009;

ystyr "ymarferydd achrededig" ("*accredited practitioner*") yw ymarferydd sy'n bodloni'r holl ofynion achredu;

ystyr "ymarferydd achrededig perthnasol" ("*relevant accredited practitioner*"), mewn perthynas â dyfais a gyflenwyd i glaf, yw'r ymarferydd achrededig a gyflenwodd y ddyfais honno i'r claf hwnnw;

mae i "ymarferydd meddygol offthalmig" ("*ophthalmic medical practitioner*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre" ("*Velindre University NHS Trust*") yw

---

(**1**) O.S. 2023/1053 (Cy. 179).
(**2**) LlC24-01.

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**1**).

# RHAN 2

## Cyfarwyddydau i'r Byrddau Iechyd Lleol – swyddogaethau sydd i'w harfer yn unigol

### Y gwasanaethau llygaid sydd i fod ar gael mewn gofal sylfaenol

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol drefnu, mewn cysylltiad â'i ardal, i GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 fod ar gael mewn gofal sylfaenol i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn.

(2) Wrth drefnu ar gyfer darparu GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 o dan baragraff (1), rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn unol â'r canlynol—

(i) y safonau clinigol perthnasol a nodir yn y llawlyfr clinigol,

(ii) y gweithdrefnau gweithredu safonol, a

(iii) unrhyw fesurau clinigol neu unrhyw fesurau ansawdd eraill y mae'r cyd-bwyllgor wedi cytuno arnynt,

(b) sicrhau bod contractwyr trefnu yn meddu ar gymwysterau addas a'u bod yn gymwys, gyda mesurau diogelu priodol ar waith, i ddarparu GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 (fel y bo'n briodol),

(c) rhoi sylw i'w asesiad o anghenion iechyd llygaid (os oes asesiad), a

(d) sicrhau yr ymchwilir i unrhyw bryderon, unrhyw ddigwyddiadau neu unrhyw gwynion sy'n digwydd o ganlyniad i ddarparu GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol, a hynny yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**2**) ac unrhyw ofynion eraill a nodir yn y llawlyfr clinigol neu'r gweithdrefnau gweithredu safonol.

---

(**1**) O.S. 1993/2838, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/826; O.S. 2002/442 (Cy. 57); O.S. 2002/2199 (Cy. 219); O.S. 2009/2059 (Cy. 178); O.S. 2012/1262 (Cy. 157); O.S. 2017/912 (Cy. 223); O.S. 2018/887 (Cy. 176); O.S. 2021/232 (Cy. 58) ac O.S. 2022/251 (Cy. 77).

(**2**) O.S. 2011/704 (Cy. 108), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235; O.S. 2013/898 (Cy. 102); O.S. 2022/634; O.S. 2023/274 (Cy. 41); O.S. 2023/281 (Cy. 42) ac O.S. 2023/1053 (Cy. 179).

(3) Wrth ymrwymo i drefniant â chontractwr trefnu ar gyfer darparu GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y trefniant yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr trefnu—

(a) darparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen (oni bai bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn dal yr wybodaeth berthnasol eisoes);

(b) darparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen arno, gan gynnwys data'r gweithlu a gwybodaeth am y mathau o gyflyrau llygaid a'r risgiau i iechyd llygaid neu olwg a nodwyd gan y contractwr trefnu ymysg ei gleifion;

(c) cymryd y camau a nodir ym mharagraff (4), pan fo'r contractwr trefnu yn cyflogi ymarferydd achrededig yn rheolaidd neu'n cymryd ymlaen ymarferydd achrededig yn rheolaidd i ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 (fel y bo'n briodol);

(d) hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 7 niwrnod am unrhyw newidiadau perthnasol i'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag (a), (b) neu (c) uchod;

(e) sicrhau bod GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 (fel y bo'n briodol) yn cael eu darparu yn unol â'r canlynol—

  (i) y safonau clinigol perthnasol a nodir yn y llawlyfr clinigol,

  (ii) y gweithdrefnau gweithredu safonol, a

  (iii) unrhyw fesurau clinigol neu unrhyw fesurau ansawdd eraill y mae'r cyd-bwyllgor wedi cytuno arnynt;

(f) cyn cyflogi neu gymryd ymlaen ymarferydd achrededig i ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5—

  (i) cydymffurfio â'r Safonau Gwirio Cyn Cyflogaeth mewn perthynas â'r person hwnnw, a

  (ii) cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun fod y person o dan sylw yn meddu ar gymwysterau addas a'i fod yn gymwys, gyda mesurau diogelu priodol ar waith, i gyflawni'r dyletswyddau y mae'r person hwnnw i gael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar eu cyfer.

(4) Pan fo cyfarwyddyd 3(3)(c) yn gymwys, rhaid i'r contractwr trefnu—

(a) gofyn i'r ymarferydd achrededig am yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen, a chael yr wybodaeth honno ganddo,

(b) hysbysu'r ymarferydd achrededig y bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol ac, yn achos yr wybodaeth ym mharagraff 1(2)(a), (b) ac (c) o'r Atodlen, y bydd yn cael ei chyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion ei restr weinyddol, ac

(c) darparu'r wybodaeth a gyflenwyd gan ymarferydd achrededig i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(5) Mae person yn ymarferydd achrededig at ddibenion darparu GOCC 3 os yw—

(a) yn ymarfer yng Nghymru ac yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi sydd wedi ei gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol, neu'n ymarferydd meddygol offthalmig sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol;

(b) yn cwblhau'r Achrediad GGGC yn llwyddiannus;

(c) yn cwblhau'n llwyddiannus unrhyw hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant datblygu parhaus gorfodol sy'n ofynnol gan y cyd-bwyllgor.

(6) Mae person yn ymarferydd achrededig at ddibenion darparu GOCC 4 neu GOCC 5 os yw—

(a) yn ymarfer yng Nghymru ac yn optometrydd sydd wedi ei gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu'n ymarferydd meddygol offthalmig sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol,

(b) yn cwblhau'n llwyddiannus y gofynion ymarfer a chlinigol a nodir yn y llawlyfr clinigol ar gyfer GOCC 4 neu GOCC 5 (fel y bo'n briodol), ac

(c) yn cwblhau'n llwyddiannus unrhyw hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant datblygu parhaus gorfodol sy'n ofynnol gan y cyd-bwyllgor.

(7) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

(a) ystyr "GOCC 3" yw darparu asesiadau golwg gwan, cymorth ac arweiniad i gleifion y mae angen asesiadau o'r fath arnynt, a sicrhau bod cymhorthion golwg gwan yn cael eu darparu i gleifion, ac ardystiad o amhariad ar y golwg mewn optometreg yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn;

(b) ystyr "GOCC 4" yw bod uwch-ymarferwyr yn rheoli gwasanaethau monitro a mireinio atgyfeiriadau ym meysydd retina meddygol a glawcoma, a ddarperir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn;

(c) ystyr “GOCC 5” yw bod uwch-ymarferwyr yn rheoli problemau llygaid acíwt a glawcoma, a ddarperir yn unol â’r Cyfarwyddydau hyn.

(8) At ddibenion y cyfarwyddyd hwn, rhaid i “Safonau Gwirio Cyn Cyflogaeth” gynnwys o leiaf yr elfennau a ganlyn o Safonau Gwirio Cyflogaeth y GIG a gyhoeddir gan Gonffederasiwn y GIG—

(a) y safon gwiriadau adnabod,

(b) y safon gwiriadau hawl i weithio,

(c) y safon gwiriadau cofrestru a chymwysterau proffesiynol,

(d) y safon gwiriadau geirdaon, ac

(e) y safon gwiriadau cofnodion troseddol.

**Asesiad o anghenion iechyd llygaid**

**4.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi, ar gyfer ei ardal, asesiad o anghenion iechyd llygaid yn unol â’r Cyfarwyddydau hyn.

(2) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion iechyd llygaid o fewn 12 mis i’r dyddiad cychwyn.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi asesiad diwygiedig o anghenion iechyd llygaid heb fod yn hwyrach na 3 blynedd ar ôl iddo gyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion iechyd llygaid yn unol â pharagraff (2) a phob 3 blynedd wedi hynny.

(4) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi asesiad diwygiedig o anghenion iechyd llygaid cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl nodi newidiadau, sy’n newidiadau sylweddol, ers cyhoeddi ei asesiad blaenorol o anghenion iechyd llygaid oni bai ei fod wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny yn ymateb anghymesur i’r newidiadau hynny.

(5) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi datganiad sy’n esbonio’r newidiadau i’r ddarpariaeth o unrhyw un neu ragor neu’r cyfan o GOCC 1–5 ers cyhoeddi ei asesiad blaenorol o anghenion iechyd llygaid pan fo’r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) wedi ei fodloni y byddai gwneud asesiad diwygiedig o anghenion iechyd llygaid yn ymateb anghymesur i’r newidiadau hynny, neu

(b) wrthi’n gwneud asesiad diwygiedig o anghenion iechyd llygaid ac wedi ei fodloni ei bod yn hanfodol addasu ei asesiad o anghenion iechyd llygaid ar unwaith er mwyn atal niwed i’r ddarpariaeth o wasanaethau offthalmig yn ei ardal.

(6) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn cyhoeddi asesiad o anghenion iechyd llygaid ar gyfer ei ardal yn unol â pharagraffau (2), (3) neu (4), neu ddatganiad ar gyfer ei ardal yn unol â pharagraff (5), rhaid i’r Bwrdd Iechyd

Lleol hysbysu'r cyd-bwyllgor am ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn asesiad o anghenion iechyd llygaid**

**5.**—(1) Rhaid i asesiad o anghenion iechyd llygaid a lunnir yn unol â chyfarwyddyd 4 ymwneud â phob un o GOCC 1–5 a ddarperir o dan drefniadau a wneir gan y Bwrdd Iechyd Lleol a rhaid iddo gynnwys y materion a nodir ym mharagraff (2).

(2) Y materion y mae rhaid eu cynnwys mewn asesiad o anghenion iechyd llygaid yw—

(a) asesiad a chrynodeb o'r ddarpariaeth o GOCC 1–5;

(b) asesiad a chrynodeb o'r galw am GOCC 1–5;

(c) cynigion ar gyfer gwasanaethau offthalmig pellach y gall fod eu hangen i ateb y galw am y gwasanaethau hynny;

(d) amlinelliad o nifer yr achosion o golli golwg, a'i effaith, yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys achoseg, ffactorau risg, demograffeg a chanlyniadau iechyd y cyhoedd a chanlyniadau eraill colli golwg;

(e) dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarperir gan bob ffynhonnell ddata;

(f) map sy'n nodi'r mangreoedd y darperir unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o GOCC 1–5 ynddynt yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

(3) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol, i'r graddau y bo'n ymarferol, gadw'n gyfredol y map y mae'n ei gynnwys yn ei asesiad o anghenion iechyd llygaid yn unol â pharagraff (2)(f) ac nid oes angen iddo ailgyhoeddi'r asesiad cyfan.

**Materion i'w hystyried wrth lunio asesiad o anghenion iechyd llygaid**

**6.** Wrth lunio asesiad o anghenion iechyd llygaid o dan gyfarwyddyd 4, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) rhoi sylw, i'r graddau y bo'n ymarferol gwneud hynny, i'r materion a ganlyn—

(i) demograffeg ei ardal,

(ii) unrhyw anghenion gwahanol sydd gan ardaloedd lleol gwahanol o fewn ei ardal,

(iii) y gwasanaethau offthalmig a ddarperir o dan drefniadau ag unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol cyfagos sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau offthalmig yn ei ardal,

(iv) unrhyw wasanaethau GIG eraill a ddarperir yn ei ardal neu y tu allan iddi (nad ydynt wedi eu cwmpasu gan is-

baragraff (iii)) sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau offthalmig yn ei ardal,

(v) unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd Lleol naill ai o dan y Cyfarwyddydau hyn neu o dan Reoliadau 2023, a

(b) ystyried yr anghenion tebygol yn y dyfodol gan roi sylw i newidiadau yn nifer y bobl yn ei ardal y bydd arnynt angen unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o GOCC 1–5.

### Ad-dalu ffioedd

**7.** Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol, mewn cysylltiad â'i ardal, weithredu system ar gyfer ad-dalu ffioedd am ddarparu GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen.

### Adroddiad blynyddol

**8.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol lunio adroddiad blynyddol at ddibenion monitro'r ddarpariaeth o GOCC 1–5 yn ei ardal yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol gwmpasu GOCC 1–5 a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol o dan drefniadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd Lleol a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (3) isod.

(3) Yr wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol yw—

(a) crynodeb o'r ddarpariaeth o GOCC 1–5,

(b) crynodeb o'r gweithlu sy'n darparu'r gwasanaethau hynny,

(c) asesiad o effeithiolrwydd y ddarpariaeth o GOCC 1–5, gan gynnwys unrhyw gleifion yn symud o wasanaethau offthalmoleg eilaidd i ofal sylfaenol, mynediad at lwybrau optometreg, ac amseroedd cael mynediad at wasanaethau,

(d) unrhyw fylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth o wasanaethau a'r camau a gymerwyd i geisio mynd i'r afael â'r bylchau hynny ac yna eu cau,

(e) unrhyw angen a nodwyd am lwybrau gwella gwasanaethau ac, os yw'n berthnasol, unrhyw gynigion a nodwyd ar gyfer llwybrau o'r fath;

(f) rhagolygon ariannol ar gyfer darparu gwasanaethau, ac

(g) crynodeb o weithgarwch cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n ymwneud â GOCC 1–5 i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hynny ymysg y cyhoedd a phroffesiynolion gofal iechyd, a'i gynigion ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu yn y dyfodol.

(4) O fewn pedair wythnos i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi, rhaid i'r adroddiad blynyddol—

(a) cael ei gyhoeddi, a

(b) cael ei gyflwyno i'r cyd-bwyllgor.

# RHAN 3

## Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol – swyddogaethau sydd i'w harfer ar y cyd

### Arfer swyddogaethau ar y cyd a phenodi'r cyd-bwyllgor

**9.**—(1) Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol arfer ar y cyd y swyddogaethau yng nghyfarwyddydau 8 i 12 yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn.

(2) At ddiben arfer y swyddogaethau hynny, rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol benodi cyd-bwyllgor o'r dyddiad cychwyn.

(3) Enw'r cyd-bwyllgor a benodir gan y Byrddau Iechyd Lleol o dan baragraff (2) fydd Pwyllgor Gofal Llygaid Cymru.

### Llawlyfr clinigol

**10.**—(1) Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol drefnu ar gyfer llunio a chyhoeddi llawlyfr clinigol ar gyfer GOCC 1–5 yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Rhaid i'r llawlyfr clinigol—

(a) cynnwys gwybodaeth gwasanaethau, safonau clinigol, ac ansawdd gofal ar gyfer darparu GOCC 1–5;

(b) nodi'r amgylchiadau pan fo GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 i'w darparu;

(c) adlewyrchu'r gofynion o ran hyfforddiant, cymwysterau ac achredu ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu pob un o GOCC 1–5;

(d) nodi gofynion y broses ar gyfer ymdrin â phryderon neu gwynion am GOCC 1–5 y mae rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**1**);

(e) cynnwys unrhyw ofynion rhesymol eraill ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â GOCC 1–5.

(3) Ni chaniateir cyhoeddi'r llawlyfr clinigol oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo gan y cyd-bwyllgor.

---

(**1**) O.S. 2011/704 (Cy. 108).

(4) Cyn y gellir cymeradwyo'r llawlyfr clinigol, rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn briodol.

(5) Mae gofynion paragraffau (2) i (4) yn gymwys i unrhyw lawlyfr clinigol diwygiedig.

### Gweithdrefnau gweithredu safonol

**11.**—(1) Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol drefnu ar gyfer llunio a chyhoeddi gweithdrefnau gweithredu safonol yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ni chaniateir cyhoeddi'r gweithdrefnau gweithredu safonol oni bai eu bod wedi eu cymeradwyo gan y cyd-bwyllgor.

(3) Cyn y gellir cymeradwyo'r gweithdrefnau gweithredu safonol, rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn briodol.

(4) Mae gofynion paragraffau (2) a (3) yn gymwys i unrhyw weithdrefnau gweithredu safonol diwygiedig.

### Cymeradwyo'r cynllun cyllideb blynyddol

**12.** Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol ystyried, ac, os ydynt yn fodlon, gymeradwyo, y cynllun cyllideb blynyddol a luniwyd ac a gyflwynwyd i'r cyd-bwyllgor gan y corff GIG cynhaliol yn unol â pharagraff 8 o'r Atodlen.

### Adroddiad cryno blynyddol

**13.**—(1) Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi adroddiad cryno blynyddol at ddibenion monitro'r ddarpariaeth o GOCC 1–5 ledled Cymru yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Rhaid i'r adroddiad cryno blynyddol ymwneud â'r ddarpariaeth o GOCC 1–5 o dan drefniadau a wneir gan y Byrddau Iechyd Lleol a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (3) isod.

(3) Yr wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad cryno blynyddol yw—

(a) gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o GOCC 1–5 ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad blynyddol a gyflwynir gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 8(4)(b) a'r wybodaeth a ddarperir i'r cyd-bwyllgor o dan baragraffau 2(3) a 3(4) o'r Atodlen;

(b) asesiad o ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o GOCC 1–5 ledled Cymru, gan gynnwys cleifion yn symud o wasanaethau offthalmoleg eilaidd i optometreg gofal sylfaenol;

(c) asesiad o unrhyw angen a nodwyd am lwybrau gwella gwasanaethau ar gyfer GOCC 1–5 ledled Cymru ac, os yw'n berthnasol, unrhyw gynigion a nodwyd ar gyfer llwybrau o'r fath;

(d) asesiad o weithgarwch cyfathrebu sy'n ymwneud â GOCC 1–5 a gynhaliwyd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hynny ymysg y cyhoedd a phroffesiynolion gofal iechyd, a chynigion ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu yn y dyfodol;

(e) unrhyw fater arall y mae cadeirydd y cyd-bwyllgor yn ystyried ei fod yn briodol.

(4) Rhaid cyflwyno adroddiad cryno blynyddol i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na phedair wythnos ar ôl i'r cyd-bwyllgor gael adroddiad blynyddol pob Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 8(4).

### Rheolau sefydlog y cyd-bwyllgor

**14.** Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi rheolau sefydlog ar gyfer y cyd-bwyllgor y mae rhaid iddynt gynnwys o leiaf ddarpariaethau ynghylch—

(a) y gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau o'r cyd-bwyllgor,

(b) deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y cyd-bwyllgor,

(c) terfynu aelodau o'r cyd-bwyllgor a'u hatal dros dro,

(d) rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor, ac

(e) sut i gysylltu â'r cyd-bwyllgor.

## RHAN 3

## Y corff GIG cynhaliol

### Cyfarwyddydau i'r corff GIG cynhaliol

**15.** Rhaid i'r corff GIG cynhaliol arfer ei swyddogaethau i ddarparu unrhyw gymorth proffesiynol, gweinyddol a thechnegol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg y cyd-bwyllgor ac yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn.

## RHAN 4

## Aelodaeth a thrafodion y cyd-bwyllgor

### Aelodaeth y cyd-bwyllgor

**16.**—(1) Rhaid i aelodau'r cyd-bwyllgor gynnwys—

(a) cadeirydd a enwebwyd gan brif swyddogion y Byrddau Iechyd Lleol o blith yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c);

(b) is-gadeirydd a benodwyd gan y cyd-bwyllgor o blith yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c), (d), (e), (f), (g), (h) neu (i);

(c) prif swyddog pob Bwrdd Iechyd Lleol neu gynrychiolydd enwebedig y prif swyddog;

(d) swyddog cyllid a enwebwyd gan swyddogion cyllid y Byrddau Iechyd Lleol;

(e) cyfarwyddwr gwasanaethau gofal sylfaenol y Bartneriaeth Gydwasanaethau neu gynrychiolydd enwebedig y cyfarwyddwr;

(f) y Cynghorwyr Optometrig Lleol o bob Bwrdd Iechyd Lleol;

(g) yr Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer GOCC;

(h) cyfarwyddwr cyllid y Bartneriaeth Gydwasanaethau neu gynrychiolydd enwebedig y cyfarwyddwr cyllid;

(i) swyddog meddygol neu gyfarwyddwr meddygol cyswllt a enwebwyd gan swyddogion meddygol a chyfarwyddwyr meddygol cyswllt y Byrddau Iechyd Lleol;

(j) wyth aelod cyswllt (gweler paragraff (2)).

(2) Yr aelodau cyswllt yw—

(a) prif weithredwr Optometreg Cymru(**1**) neu gynrychiolydd y person hwnnw sy'n gyfarwyddwr i Optometreg Cymru;

(b) prif weithredwr Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru(**2**) neu gynrychiolydd y person hwnnw;

(c) cynrychiolydd o Addysg a Gwella Iechyd Cymru(**3**);

(d) cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru;

(e) cynrychiolydd o Fforwm Golwg Cymru(**4**);

(f) cynrychiolydd o Bwyllgor Cynghori Orthopteg Cymru Gyfan(**5**) sy'n orthoptydd cofrestredig;

---

(**1**) Y sefydliad ambarél proffesiynol ar gyfer y proffesiwn iechyd llygaid ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru o'r enw Optometreg Cymru ac sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 8219539.

(**2**) Fe'i sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1).

(**3**) Fe'i sefydlwyd gan O.S. 2017/913 (Cy. 224).

(**4**) Y corff anghorfforedig o'r enw Fforwm Golwg Cymru sydd ag aelodau sy'n cynnwys sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithio gyda phobl yng Nghymru sydd wedi colli eu golwg.

(**5**) Y grŵp cynghori i'r pwyllgor o'r enw Pwyllgor Cymru ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf.

(g) Llywydd Pwyllgor Cymru Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr([1]) neu gynrychiolydd y person hwnnw sy'n ymarferydd meddygol offthalmig;

(h) cadeirydd Pwyllgor Optometrig Cymru([2]) neu gynrychiolydd y person hwnnw.

(3) Rhaid i benodiadau i'r cyd-bwyllgor fod yn unol â'r rheolau sefydlog.

(4) At ddibenion y Cyfarwyddydau hyn, cynrychiolydd enwebedig yw—

(a) mewn perthynas â phrif swyddog Bwrdd Iechyd Lleol, swyddog gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) mewn perthynas â chyfarwyddwr gwasanaethau gofal sylfaenol y Bartneriaeth Gydwasanaethau, dirprwy gyfarwyddwr gwasanaethau gofal sylfaenol y Bartneriaeth Gydwasanaethau;

(c) mewn perthynas â chyfarwyddwr cyllid y Bartneriaeth Gydwasanaethau, cyflogai i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sydd â chyfrifoldebau yn ymwneud â chyllid y Bartneriaeth Gydwasanaethau.

(5) Rhaid i enwebiad at ddibenion paragraff (4) fod yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio at gadeirydd y cyd-bwyllgor.

### Cyfarfodydd a thrafodion

**17.** Rhaid i gyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor gael eu cynnal yn unol â'r rheolau sefydlog.

## RHAN 5

## Diogelu data

### Diogelu data

**18.** Nid oes dim yn y Cyfarwyddydau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Iechyd Lleol na'r corff GIG cynhaliol wneud unrhyw beth yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.

---

(**1**) Pwyllgor Cymru Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr sy'n un o bwyllgorau Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr.

(**2**) Pwyllgor Optometrig Cymru yw enw gweithredu Pwyllgor Optegol Cymru, sy'n bwyllgor cynghori statudol a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 190 o Ddeddf 2006.

# RHAN 6

## Dirymiadau, arbedion, diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau

### Dirymiadau

**19.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Mae Cyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(**2**) wedi eu dirymu.

### Arbedion

**20.** Mae unrhyw gam a gymerwyd gan neu ar ran Pwyllgor GGGC a sefydlwyd o dan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016 neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Optometreg Estynedig a sefydlwyd o dan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 cyn y dyddiad cychwyn yn cael effaith ar neu ar ôl y dyddiad cychwyn fel pe bai'r cam hwnnw wedi ei gymryd gan y cyd-bwyllgor ar y dyddiad cychwyn.

### Diwygiadau i Gyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024

**21.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng nghyfarwyddyd 2(1) (dehongli)—

(a) yn lle'r diffiniad o "GOCC 3" rhodder—

"mae i "GOCC 3" ("*WGOS 3*") yr ystyr a roddir yng nghyfarwyddyd 2 o Gyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024;";

(b) yn lle'r diffiniad o "GOCC 4" rhodder—

"mae i "GOCC 4" ("*WGOS 4*") yr ystyr a roddir yng nghyfarwyddyd 2 o Gyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024;";

(c) yn lle'r diffiniad o "GOCC 5" rhodder—

mae i "GOCC 5" ("*WGOS 5*") yr ystyr a roddir yng nghyfarwyddyd 2 o Gyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024;".

(3) Yng nghyfarwyddyd 3(2) (cyfarwyddydau i bob Bwrdd Iechyd Lleol), yn lle "darparu neu'n cynorthwyo

---

(**1**) O.S. 2016/10 fel y'i diwygiwyd gan LlC20-44, LlC21-11 (sydd bellach wedi dod i ben) ac LlC23-47.

(**2**) O.S. 2016/11 fel y'i diwygiwyd gan LlC20-44, LlC21-11 (sydd bellach wedi dod i ben) ac LlC23-47.

(**3**) LlC24-01.

i ddarparu gwasanaethau offthalmig” rhodder “darparu gwasanaethau offthalmig, sy’n cynorthwyo i’w darparu neu sy’n cefnogi’r ddarpariaeth ohonynt”.

Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 28 Mawrth 2024

# YR ATODLEN

Cyfarwyddydau 3, 7, 12, 13

## RHAN 1

## GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 – yr wybodaeth sydd i’w chyflenwi i’r Bwrdd Iechyd Lleol

### Yr wybodaeth sydd i’w chyflenwi i’r Bwrdd Iechyd Lleol

**1.**—(1) Mae’r wybodaeth sydd i’w chyflenwi gan y contractwr trefnu fel a ganlyn—

(a) enw llawn y contractwr trefnu;

(b) rhif cofrestru proffesiynol y contractwr trefnu;

(c) y dyddiad y cofrestrwyd y contractwr trefnu gyntaf yn y gofrestr;

(d) manylion cyfeiriadau unrhyw leoedd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’r contractwr trefnu yn cytuno i ddarparu unrhyw un neu ragor neu’r cyfan o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 ynddynt;

(e) os yw’r contractwr trefnu yn dymuno darparu gwasanaethau symudol, y cyfeiriadau y dylid anfon gohebiaeth iddynt mewn cysylltiad â gwasanaethau o’r fath;

(f) manylion y diwrnodau y mae’r contractwr trefnu yn cytuno i ddarparu unrhyw un neu ragor neu’r cyfan o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 arnynt, a rhwng pa oriau y mae wedi cytuno i ddarparu’r gwasanaethau hynny;

(g) rhif cwmni’r contractwr trefnu, os yw’n briodol;

(h) cyfeiriad preifat y contractwr trefnu neu, yn achos optegydd corfforedig, gyfeiriad ei swyddfa gofrestredig ac, yn y naill achos neu’r llall, rif ffôn;

(i) cymwysterau’r contractwr trefnu (gan gynnwys y cymwysterau ôl-raddedig priodol) ac ymhle y’u cafwyd;

(j) manylion cronolegol profiad proffesiynol y contractwr trefnu (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen pob swydd ynghyd ag esboniad am unrhyw fylchau rhwng swyddi), ynghyd ag unrhyw fanylion ategol, ac esboniad ynghylch pam y diswyddwyd y contractwr trefnu o unrhyw swydd;

(k) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr sy’n fodlon darparu geirdaon ar gyfer y contractwr trefnu mewn cysylltiad â dwy swydd ddiweddar (caniateir cynnwys unrhyw swydd gyfredol), a barhaodd am 3 mis o leiaf heb doriad sylweddol, a phan na fo hyn yn bosibl, esboniad llawn ac enwau a chyfeiriadau canolwyr eraill;

(l) manylion unrhyw achos sydd yn yr arfaeth neu achos gohiriedig o gael ei gynnwys mewn rhestr gofal sylfaenol neu mewn unrhyw restr arall gan Fwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol, ynghyd ag enw’r Bwrdd Iechyd Lleol neu’r corff cyfatebol sydd o dan sylw;

(m) manylion unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol y mae’r contractwr trefnu wedi ei gynnwys yn ei restrau, neu y mae enw’r contractwr trefnu wedi ei ddileu neu ei ddileu yn ddigwyddiadol o’i restrau, neu y mae’r contractwr trefnu wedi ei atal dros dro o’i restrau, neu y gwrthodwyd ei gynnwys yn ei restrau neu y mae wedi ei gynnwys yn amodol yn ei restrau, ynghyd ag esboniad o’r rhesymau dros hynny;

(n) os yw’r contractwr trefnu yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu sydd â chais yn yr arfaeth (gan gynnwys cais gohiriedig) i’w gynnwys mewn rhestr o’r fath, enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y corff hwnnw a manylion y Bwrdd Iechyd Lleol neu’r corff cyfatebol sydd o dan sylw;

(o) os yw’r contractwr trefnu yn gyfarwyddwr, neu os oedd, yn y 6 mis blaenorol, yn gyfarwyddwr, neu os oedd, ar adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr, i gorff corfforedig, manylion unrhyw restr neu restr gyfatebol y gwrthodwyd cynnwys y corff hwnnw ynddi, y’i cynhwyswyd yn amodol

ynddi, y'i dilëwyd ohoni neu y'i dilëwyd yn ddigwyddiadol ohoni neu y mae wedi ei atal dros dro ohoni ar hyn o bryd, ynghyd ag esboniad o'r rhesymau dros hyn a manylion y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r corff cyfatebol sydd o dan sylw;

(p) yr holl awdurdod sy'n angenrheidiol i alluogi'r Bwrdd Iechyd Lleol i ofyn i unrhyw gyflogwr (neu gyn-gyflogwr), unrhyw gorff trwyddedu, unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, am wybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliad cyfredol ganddo, neu ymchwiliad â chanlyniad anffafriol ganddo, i'r contractwr trefnu.

(2) Mae'r wybodaeth y mae rhaid gofyn amdani a'i chael oddi wrth ymarferydd achrededig sydd i gael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr trefnu fel a ganlyn—

(a) enw llawn yr ymarferydd achrededig;

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd achrededig;

(c) y dyddiad y cofrestrwyd yr ymarferydd achrededig gyntaf yn y gofrestr;

(d) cymwysterau'r ymarferydd achrededig (gan gynnwys y cymwysterau ôl-raddedig priodol) ac ymhle y'u cafwyd.

# RHAN 2

## Ad-dalu ffioedd ymarferwyr achrededig

### Ad-dalu ffioedd ymarferwyr achrededig

**2.**—(1) Ar ôl darparu unrhyw un neu ragor o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 i glaf, rhaid i ymarferydd achrededig, neu'r contractwr trefnu ar ran yr ymarferydd achrededig, anfon hawliad am daliad am y gwasanaethau hynny, ac mewn cysylltiad â GOCC 3 y cofnod o wasanaethau, i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

(2) Ar ôl ystyried yr hawliad am daliad ac, os yw'n berthnasol, y cofnod o wasanaethau, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol naill ai—

(a) derbyn yr hawliad am daliad ac, os yw'n berthnasol, y cofnod o wasanaethau, a'i atgyfeirio i'w dalu, neu

(b) ymholi ynghylch yr hawliad am daliad ac, os yw'n berthnasol, y cofnod o wasanaethau.

(3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol anfon i'r cyd-bwyllgor ddadansoddiad o'r holl wariant y mae pob contractwr trefnu wedi mynd iddo yn ystod y flwyddyn ariannol honno wrth ddarparu unrhyw un

neu ragor o GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5 yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol penodol ynghyd â dadansoddiad manwl o sut y cyfrifir y gwariant hwnnw.

(4) Rhaid i'r dadansoddiad o wariant fod ar y ffurf a gymeradwywyd gan y cyd-bwyllgor.

# RHAN 3

## Cyflenwi dyfeisiau

**Contractau cyflenwyr yn ôl y gofyn**

**3.**—(1) Rhaid i'r corff GIG cynhaliol ymrwymo i unrhyw gontractau cyflenwyr yn ôl y gofyn sy'n angenrheidiol i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, tra bo'r Cyfarwyddydau hyn yn parhau mewn grym, fod y corff GIG cynhaliol yn gallu cael gafael ar gyflenwadau digonol o ddyfeisiau er mwyn iddo allu cyflawni pob archeb am ddyfais y mae'n ei chael.

(2) Wrth ddyfarnu unrhyw gontract cyflenwyr yn ôl y gofyn, rhaid i'r corff GIG cynhaliol gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol cymwys gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â chaffael nwyddau a gwasanaethau a'r gofynion clinigol a gymeradwyir gan yr Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer GOCC ar ôl ymgynghori â chleifion ac ymarferwyr achrededig.

(3) Ni chaiff y corff GIG cynhaliol ddyroddi unrhyw wahoddiad i dendro ar gyfer dyfarnu contract cyflenwyr yn ôl y gofyn na dyfarnu contract o'r fath heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyd-bwyllgor.

(4) Rhaid i'r corff GIG cynhaliol, heb fod yn hwyrach na 30 o ddiwrnodau ar ôl diwedd pob chwarter, lunio dadansoddiad llawn o wariant, gan gynnwys y galw gan gleifion a refeniw, ar gyfer y cyd-bwyllgor gan gynnwys yr holl ffioedd am gontractau cyflenwyr yn ôl y gofyn sy'n cael eu talu gan y corff GIG cynhaliol, ynghyd â dadansoddiad manwl o sut y cyfrifir y costau a'r ffioedd hynny.

**Archebion am Gymhorthion/Dyfeisiau Golwg Gwan**

**4.**—(1) Rhaid i'r corff GIG cynhaliol—

(a) gweithredu system ar gyfer prosesu pob archeb am ddyfais y mae'n ei chael gyda'r nod o sicrhau bod dyfeisiau yn cael eu cyflenwi i gleifion mor brydlon ac mor effeithlon â phosibl i'r graddau y bo hynny o fewn rheolaeth y corff GIG cynhaliol ac yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon,

(b) sicrhau i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol fod pob ymarferydd achrededig yn cael manylion y cyfeiriad y mae rhaid iddo anfon

archebion am ddyfeisiau iddo a/neu ddychwelyd dyfeisiau nad yw'n ofynnol i'r cleifion eu defnyddio mwyach iddo, ac

(c) gwirhau bod unrhyw berson sy'n honni ei fod yn ymarferydd achrededig wedi bodloni'r gofynion achredu fel y'u nodir yn y llawlyfr clinigol a'i fod yn parhau i wneud hynny ar bob adeg berthnasol.

(2) Caiff y corff GIG cynhaliol gyfarwyddo'r cyflenwr contract yn ôl y gofyn perthnasol i anfon unrhyw ddyfais a archebwyd gan y Byrddau Iechyd Lleol o dan gontract yn ôl y gofyn yn uniongyrchol at yr ymarferydd achrededig a gyflwynodd yr archeb am y ddyfais honno.

**Yr amodau cyflenwi**

**5.**—(1) Mae'r amodau cyflenwi fel a ganlyn—

(a) rhaid trosglwyddo perchnogaeth pob dyfais oddi wrth y cyflenwr perthnasol i'r corff GIG cynhaliol cyn iddi gael ei danfon at yr ymarferydd achrededig perthnasol i'w chyflenwi i glaf,

(b) mae pob dyfais sy'n cael ei chyflenwi i glaf drwy'r corff GIG cynhaliol ar fenthyg i'r claf hwnnw ac yn parhau yn eiddo i'r corff GIG cynhaliol nes bod y corff GIG cynhaliol yn trosglwyddo'r berchnogaeth ar y ddyfais i drydydd parti neu nes y caiff ei dinistrio, pa un bynnag yw'r cynharaf, ac

(c) rhaid i ymarferwyr achrededig a chleifion gymryd gofal rhesymol i osgoi colli neu ddifrodi'r dyfeisiau a gyflenwir iddynt drwy'r corff GIG cynhaliol. Nid ystyrir traul rhesymol yn ddifrod.

(2) Rhaid i'r corff GIG cynhaliol gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r amodau cyflenwi, gan gynnwys gwneud trefniadau priodol gyda chyflenwyr dyfeisiau (pa un ai yn eu priod gontractau cyflenwyr yn ôl y gofyn neu fel arall) a chyfarwyddo ymarferwyr achrededig i sicrhau bod pob claf sy'n cael dyfais yn ymwybodol o'r amodau cyflenwi, gan esbonio'r amodau cyflenwi i'r claf.

# RHAN 4

## Cyllid a chynllun cyllideb blynyddol

**Trefniadau cyllido ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol**

**6.**—(1) Bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn cael cyllid o fewn ei ddyraniad cyffredinol ar gyfer trefnu i ddarparu GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn, ac eithrio—

(a) y bydd rhaid i'r costau ar gyfer hyfforddi ac achredu ymarferwyr achrededig i ymgymryd â GOCC 3, GOCC 4 a GOCC 5 gael eu talu gan AaGIC;

(b) mai'r corff GIG cynhaliol sy'n gyfrifol am dalu'r holl gontractau cyflenwyr yn ôl y gofyn.

(2) Ni chaiff y Byrddau Iechyd Lleol ddefnyddio'r cyllid a ddarperir yn unol â pharagraff (1) at unrhyw ddiben arall.

**Trefniadau cyllido ar gyfer y corff GIG cynhaliol**

**7.** Bydd y corff GIG cynhaliol yn cael cyllid ar gyfer ei gostau rhedeg ac ni chaiff ddefnyddio'r cyllid hwnnw at unrhyw ddiben arall.

**Cynllun cyllideb blynyddol**

**8.**—(1) Bob blwyddyn ariannol rhaid i'r corff GIG cynhaliol gyflwyno cynllun cyllideb blynyddol sy'n nodi'r costau rhedeg a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol honno i'r cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo.

(2) Ni chaiff y corff GIG cynhaliol fynd i unrhyw wariant o'r costau rhedeg nes bod y cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo'r cynllun cyllideb blynyddol.

(3) Rhaid i'r cynllun cyllideb blynyddol—

(a) cael ei ddanfon i'r cyd-bwyllgor erbyn 31 Ionawr fan bellaf yn union cyn dechrau'r flwyddyn ariannol o dan sylw,

(b) rhoi manylion llawn pob eitem o wariant ynghyd ag esbonio pam y mae'r corff GIG cynhaliol yn ystyried bod y gwariant hwnnw yn angenrheidiol, ac

(c) cael ei fonitro a'i adolygu er mwyn sicrhau bod adroddiad yn cael ei ddanfon i'r cyd-bwyllgor bob chwarter.

(4) Rhaid i'r cyd-bwyllgor benderfynu pa un ai i gymeradwyo neu wrthod pob eitem a ddangosir yn y cynllun cyllideb blynyddol a ddanfonwyd iddo i'w gymeradwyo a rhaid iddo gyfleu ei benderfyniad i'r corff GIG cynhaliol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan roi sylw i'r holl amgylchiadau.

(5) Wrth ystyried pa un ai i gymeradwyo cynllun cyllideb blynyddol ai peidio, caiff y cyd-bwyllgor gynnig unrhyw addasiadau ac unrhyw amodau i'r cynllun y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(6) Os nad yw'r cyd-bwyllgor yn gallu cytuno ar y cynllun cyllideb a'i gymeradwyo, bydd y cyd-bwyllgor yn gofyn i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw addasiadau ac unrhyw amodau i'r cynllun cyllideb y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(7) Rhaid i'r cyd-bwyllgor gymeradwyo'r cynllun cyllideb erbyn 31 Mawrth fan bellaf yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'r cynllun cyllideb yn ymwneud â hi.

(8) Nid yw paragraff (3)(a) yn gymwys i'r cynllun cyllideb blynyddol cyntaf. Rhaid i'r cynllun cyllideb blynyddol cyntaf gael ei ddanfon i'r cyd-bwyllgor heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod cyn cyfarfod cyntaf y cyd-bwyllgor. Rhaid i'r cyd-bwyllgor gymeradwyo'r cynllun cyllideb blynyddol cyntaf heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2024.

(9) Os yw'n ofynnol i'r corff GIG cynhaliol fynd i wariant ychwanegol nad yw wedi ei gymeradwyo gan y cyd-bwyllgor yn y cynllun cyllideb blynyddol, rhaid i'r corff GIG cynhaliol gyflwyno cynllun cyllideb atodol i'r cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo gan roi manylion llawn pob eitem o wariant ynghyd ag esbonio pam y mae'r corff GIG cynhaliol yn ystyried bod y gwariant hwnnw yn angenrheidiol ("cynllun cyllideb yn ystod y flwyddyn").

(10) Rhaid i'r cyd-bwyllgor benderfynu pa un ai i gymeradwyo neu wrthod pob eitem a ddangosir mewn unrhyw gynllun cyllideb yn ystod y flwyddyn a ddanfonwyd iddo i'w gymeradwyo a rhaid iddo gyfleu ei benderfyniad i'r corff GIG cynhaliol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(11) Tra bo'r cyd-bwyllgor yn parhau, ni chaiff y corff GIG cynhaliol waredu unrhyw lety nac unrhyw gyfarpar sydd wedi ei gynnwys yn yr adnoddau a gymeradwyir (pa un ai i amnewid unrhyw un neu ragor ohonynt ai peidio) heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyd-bwyllgor.